



WALES' INTERNATIONAL STORYTELLING FESTIVAL GŴYL CHWEDLEUA RYNGWLADOL CYMRU

Galwad / Disgrifiad Swydd ar gyfer Cyfarwyddion Cyfoes Blwyddyn 1 –

Hwb Chwedleua Myseliwm

Ffi: £7,750 am 12 mis, ar sail 58 diwrnod o amser wedi ei ariannu, yn cael eu gweithio yn hyblyg am yr amser hwnnw a £1,000 tuag at ddatblygu eich ymarfer eich hun (amser wedi ei neilltuo ar gyfer eich gwaith creadigol eich hun) a £500 tuag at ddatblygiad proffesiynol (mentora, annog, cysgodi, cyrsiau)

Mae Gŵyl Chwedleua Beyond the Border yn recriwtio dau chwedleuwr i ddatblygu rhaglenni o weithgareddau chwedleua sy'n ymestyn yn eang ac yn ddwfn i gymunedau, fel rhan o brosiect Chwedleua Mycelium a gefnogir gan gronfa Cysylltu a Ffynnu Cyngor Celfyddydau Cymru. Dros 2 flynedd, bydd yr Hwb yn cefnogi, pledio ar ran, dysgu oddi wrth ac yn siapio gwaith 4 Cyfarwydd Cyfoes, 4 Cynhyrchydd, 2 Gyfarwydd Cysylltiol a 3 gŵyl fach/digwyddiad, gan ddwyn chwedlau newydd i'r amlwg.

Nod Hwb Chwedleua Myseliwm yw datblygu ecosystem o chwedleua wedi ei wreiddio mewn cymunedau lleol a fydd yn cysylltu gydag ecosystem chwedleua fwy ar draws Cymru. Mae'r Hwb yn awr yn gwahodd ceisiadau gan chwedleuwyr a chynhyrchwyr sy'n awyddus i ddatblygu a chychwyn ystod o weithgareddau sydd wedi eu gwreiddio yn eu cymunedau, a'u cysylltu â strategaethau allweddol o hybu amrywiaeth ac ehangu'r mynediad at chwedleua, datblygu mwy o gyfleoedd trwy gyfrwng y Gymraeg mewn chwedleua, a chefnogi sefydlu rhwydwaith chwedleua iach, cynaliadwy a chyfrifol yn gymdeithasol ar draws Cymru.

Cefndir: Yng Nghymru'r canol oesoedd y Cyfarwydd, yr hen chwedleuwyr Cymreig, oedd yn cofnodi ac adlewyrchu'r hyn oedd yn digwydd yn eu cymunedau, gan gynnig arweiniad cynnil trwy'r storïau yr oeddent yn eu hadrodd. Byddai'r Cyfarwydd yn cychwyn trwy brentisiaeth, a byddai'n mynd ymlaen i fod yn aelod mawr ei barch o gymdeithas, yn teithio a dod â newyddion i'r llysoedd, gan

adlewyrchu cymdeithas y cyfnod trwy'r chwedlau - felly roedd yn creu rhwydweithiau mewn sawl ffordd.

Mae BTB yn sefydlu pedair swydd **Cyfarwydd Cyfoes** newydd dros y ddwy flynedd nesaf fel canolbwyt i Rwydwaith Myseliwm o Gysylltiadau Chwedleua ar draws Cymru, gan gysylltu gyda phartneriaid o gynhyrchwyr a sefydliadau i gynyddu ystod ac ehangu'r amrywiaeth wrth ymgysylltu â chwedleua. Bydd pob Cyfarwydd yn cyflawni swyddogaeth chwedleuwr mewn cymuned benodol, gan ymateb i anghenion a photensial y gymuned, gan feithrin partneriaethau diwylliannol amrywiol gan hefyd feithrin ei dwf artistig ei hun – gan rannu cynlluniau a chefnogaeth ar draws y rhwydwaith o swyddi a gyda HWB y bartneriaeth.

Manylion Swydd y Cyfarwydd: Bydd y Cyfarwydd Cyfoes yn datblygu rhaglen o weithgareddau chwedleua, gan gynnwys perfformiadau chwedleua ac ymgysylltu, sy'n cyrraedd yn fwy eang ac yn ddyfnach i'r gymuned y mae ei breswylad wedi ei seilio ynddi. Bydd rhai cymunedau yn ddaearyddol, ond rydym hefyd yn barod i dderbyn ceisiadau ar sail cymunedau o ran diddordeb. Yn ystod blwyddyn cyfnod eich swydd, bydd eich gwaith yn:

- galluogi rhagor o bartneriaid o bob rhan o'r gymuned i gysylltu'n greadigol â chwedleua
- galluogi rhagor o bobl i brofi chwedleua fel rhan ystyrllon o'u bywydau dyddiol
- galluogi rhagor o bobl i ddatblygu creadigrwydd a hyder wrth ymgysylltu â chwedleua
- galluogi i'ch ymarfer a'ch sgiliau chi eich hun ehangu a dyfnhau trwy'r gwaith y byddwch yn ei gychwyn a'r amser y byddwch yn ei roi i'ch datblygiad artistig eich hun.

Bydd gan bob Cyfarwydd berchenogaeth i ddatblygu ei syniadau a'i raglen mewn partneriaeth â'i gymunedau, gan alluogi unigolion i fod yn rhagweithiol a gweithio mewn ffyrdd hyblyg, gan ymateb i angen a photensial pob maes. Rydym yn ymwybodol o'r amrywiaeth o ymarfer chwedleua a'r ffordd y mae'n cael ei fynegi ar draws ystod eang o waith yn cynnwys iechyd a llesiant, dysgu iaith, addysg, perfformio, meithrin artistiaid newydd, hyfforddiant. Fel rhan o'ch cais, byddwn yn gofyn i chi nodi'r cymunedau yr ydych yn fwyaf awyddus i weithio gyda nhw – gallai hyn fod yn:

- Gymuned o ddiddordebau (pobl sy'n gysylltiedig trwy ddiddordeb/gwaith a rennir)
- Cymunedau o ran hunaniaeth (diwylliant neu brofiad a rennir)
- Cymuned Ddaearyddol (tref/stryd/ardal)
- Cymunedau o Amgylchiadau (pobl sydd wedi eu clymu â'i gilydd trwy brofiad a rennir)

Rydym yn arbennig o awyddus i glywed gan artistiaid sydd â diddordeb mewn gweithio trwy egwyddorion cyd-greadigol, gan weithio gyda neu ochr yn ochr â phobl a chymunedau i ddatblygu sgiliau ac arddangos gallu pobl, gan roi blaenoriaeth i gyfraniad a phrofiad pobl ifanc a theuluoedd, pobl fyddar ac anabl, pobl Ddu, Asiaidd a mwyafrif byd-eang, y gymuned LGBTQIA+, siaradwyr Cymraeg.

Dynododd Beyond the Border gymunedau sy'n cael blaenoriaeth benodol ar gyfer cam cyntaf y gwaith fel chwedleua yn y Gymraeg a'r Cymoedd ond rydym hefyd yn agored i roi preswylfeydd mewn ardaloedd eraill gydag anghenion a photensial wedi eu dynodi.

Ffioedd: Bydd pob Cyfarwydd yn cael gwarant o gronfa gychwynnol o £7,750 (a delir yn fisol), tua chwarter y cyflog cyfartalog yn y Deyrnas Unedig am tua 58 diwrnod o amser a gyllidir. Bydd sefydliadau sy'n dymuno datblygu prosiectau gan weithio gyda'r Cyfarwyddyd Cyfoes yn cael eu hannog i gynyddu'r ffioedd a'r treuliau hyn, gan drafod gyda deiliad y swydd, ar sail graddfa ac uchelgais eu prosiectau a'u mynediad at adnoddau. Bydd gan y Cyfarwydd Cyfoes hawl i ddyrannu ei amser a thrafod ffioedd o fewn fframwaith a awgrymir. Bydd y Cyfarwydd Cyfoes yn cael ei gefnogi i ddod o hyd i gyllid ychwanegol a chyflwyno ceisiadau am arian pan fydd hynny'n addas gan bartneriaid BTB a'r Hwb.

Cefnogaeth a Rhwydweithio: Bydd Grŵp Hwb Myseliwm yn cynnwys BTB a phartneriaid (gan gynnwys chwedleuwyr) yn cefnogi pob Cyfarwydd Cyfoes trwy gydol ei swydd, gyda chyswllt wedi ei enwi ar gyfer cefnogaeth unigol. Bydd pob Cyfarwydd Cyfoes yn mynychu o leiaf bedair sesiwn rwydweithio gyda deiliaid eraill y swyddi a phartneriaid ehangach – y bydd yr agenda ar eu cyfer yn ymateb i themâu sy'n dod i'r amlwg o bob preswylfeydd a chysylltu â chynlluniau ehangach ar draws Cymru. Bydd y Cyfarwydd Cyfoes yn cael ei annog a'i gefnogi i fanteisio ar raglen barhaus yr ŵyl o weithgareddau e.e. sgysiau Ysbrydoli, gweminarau hyfforddi ar-lein, a grwpiau trafod Casglu fel cyfle i ymestyn eu rhwydweithiau.

Gwerthuso: Bydd BTB yn penodi gwerthuswr annibynnol i helpu i gofnodi a gwerthuso cryfderau a'r gwersi a ddysgwyd o'r cynllun hwn, i helpu i siapia cyfleoedd yn y dyfodol. Bydd cyfrannu at werthusiad yn ofynnol i'r holl ddeiliaid swyddi.

Manyleb Person

Hanfodol:

- Profiad o ddatblygu a chyflawni gweithgareddau chwedleua cyfranogol gyda phobl o amrywiaeth o gefndiroedd
- Dealltwriaeth o ddull datblygu cymunedol
- Yn chwedleuwr neu berfformiwr profiadol â dealltwriaeth o ystod eang o gynulleidfaoedd/cyfranogwyr.
- Profiad o ddatblygu perthynas waith effeithiol gydag amrywiaeth o bartneriaid
- Profiad o gyflawni deilliannau prosiect
- Profiad o fonitro a gwerthuso prosiectau
- Yn llawn cymhelliant â'r gallu i fod yn hunangynhaliol yn weinyddol
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddiogelu ac amddiffyn plant
- Dull llawn dychymyg, brwdfrydig a hyblyg
- Sgiliau cyfathrebu gwych
- Wedi ymrwymo i gyfleoedd cyfartal a chyfiawnder cymdeithasol
- Yn gallu cynrychioli Beyond the Border, Gŵyl Chwedleua Ryngwladol Cymru ar bob lefel

Dymunol:

- Rhwydweithiau creadigol yn barod mewn cymunedau yng Nghymru
- Y gallu i gynnig hyfforddiant a mentora i chwedleuwyr eraill
- Profiad o drafod partneriaethau a chodi arian
- Y gallu i weithio yn y Gymraeg

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ddarostyngedig i wiriad DBS a thystlythyrau boddhaol.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan y rhai sy'n cael eu tangynrychioli yn sylweddol yn ein sector, fel pobl anabl, siaradwyr Cymraeg ac unigolion o'r Cymunedau LGBTQIA+, Du, Asiaidd a Mwyafrifoedd Byd-eang.

Byddwn yn cynnig cefnogaeth i bobl sy'n ymgeisio. Byddwn yn rhedeg sesiwn agored i bobl gael dysgu rhagor a gallwn sgwrsio am y swydd. Byddwn yn cynnig cyfweiliadau wedi eu gwarantu i siaradwyr Cymraeg, ac ymgeiswyr o gymunedau LGBTQIA+, Du, Asiaidd a Mwyafrifoedd Byd-eang, a rhai anabl.

Medi/Hydref 2021: Rydym yn recriwtio ar gyfer lleiafswm o 2 swydd, i redeg o Ionawr hyd Ragfyr 2022.

- Bydd o leiaf un swydd ar gyfer deiliad swydd Cymraeg ei iaith
- Bydd o leiaf un swydd yng Nghymoedd De Cymru, ac yn gweithio gyda phartner sy'n gynhyrchydd

Er mwyn ymgeisio:

Anfonwch eich CV a llythyr cais dim hwy na 2 ochr A4 yn amlinellu:

1. Eich Sgiliau a Phrofiad Perthnasol, gan ddefnyddio'r model medrusrwydd FEST fel patrwm: <https://fest-network.eu/research/a-competence-model-for-oral-storytelling/>
2. Y blaenoriaethau y byddai gennych ddiddordeb yn eu harchwilio trwy breswylad, yng nghyswllt gweithgareddau cymunedol a'ch datblygiad chi eich hun
3. Manylion y cymunedau yr ydych fwyaf awyddus o fod yn seiliedig ynddynt – boed yn gymuned o ddiddordebau, hunaniaeth, daearyddiaeth neu amgylchiadau
4. Darn byr o berfformiad (3 munud yn uchafswm) gydag enghraifft o'ch ymarfer chwedleua.

Gallwch ymgeisio hefyd trwy fideo, gan eich ffilmio eich hun yn ateb y cwestiynau hyn.

Anfonwch eich cais at info@beyondtheborder.com erbyn **Dydd Gwener 29 Hydref** am 5pm

Byddwn yn cynnal gweminar ar-lein i rannu gwybodaeth am y swyddi ac ateb cwestiynau ar **Ddydd Gwener 15 Hydref** o 4.30pm. Archebwch eich lle am ddim ar gyfer y weminar hon yma: (Event Brite)

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y swydd ac y byddech yn hoffi eu trafod cyn cyflwyno cais, anfonwch eich ymholiadau at info@beyondtheborder.com



**ARIENNIR GAN
Y LOTERI
LOTTERY FUNDED**

